



Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu / Building Control Service



01286 685011 / 01286 685012

rheolaethadeiladu@gwynedd.llyw.cymru
buildingcontrol@gwynedd.llyw.cymru

Hysbysiad Adeiladu (Cymru) ar gyfer gwaith adeiladu nad yw'n risg uwch

Nodiadau a Rhestr Wirio

A yw Hysbysiad Adeiladu yn addas?	Rheoliad	A yw hyn yn berthnasol (Ydy neu Nac Ydy)
<p>1 A yw'r gwaith adeiladu ac ati, mewn perthynas â gwaith adeiladu risg uwch? Nid yw hysbysiad adeiladu a roddwyd i'r awdurdod rheolaeth adeiladu yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn.</p>	2C 2D	Ydy <input type="checkbox"/> Nac Ydy <input type="checkbox"/>
<p>2 A yw'r gwaith adeiladu mewn perthynas ag adeilad y mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol neu a fydd yn berthnasol ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu? Nid yw hysbysiad adeiladu a roddwyd i'r awdurdod rheolaeth adeiladu yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn.</p>	12(3)	Ydy <input type="checkbox"/> Nac Ydy <input type="checkbox"/>
<p>3 A yw'r gwaith adeiladu yn golygu codi adeilad sy'n wynebu stryd breifat? Ar gyfer y cwestiwn hwn, mae gan "wynebu" (<i>fronting</i>) yr ystyr a roddir yn adran 203(3) Ddeddf Priffyrdd 1980; ac mae i "stryd breifat" yr ystyr a roddir yn adran 203(2) Deddf Priffyrdd 1980. Nid yw hysbysiad adeiladu a roddwyd i'r awdurdod rheolaeth adeiladu yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn.</p>	12(4)	Ydy <input type="checkbox"/> Nac Ydy <input type="checkbox"/>
<p>4 A yw'r gwaith adeiladu, yn waith y mae paragraff H4 o Atodlen 1 yn gosod gofyniad? Nid yw hysbysiad adeiladu a roddwyd i'r awdurdod rheolaeth adeiladu yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn.</p>	12(5)	Ydy <input type="checkbox"/> Nac Ydy <input type="checkbox"/>
<p>5 A yw unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad cychwynnol wedi'i wneud a bod yr hysbysiad cychwynnol wedi peidio â bod mewn grym? Os felly, mae Rheoliad 17 – Rheoliadau yr Adeilad (Cymeradwywyr Rheolaeth Adeiladu Cofrestredig ac ati.) (Cymru) 2024 (pwerau awdurdod lleol mewn perthynas â gwaith wedi'i gwblhau'n rhannol) yn berthnasol. Dylid cydymffurfio â gofynion y rheoliad hwnnw ac nid yw cais am dystysgrif rheoleiddio adeiladu yn briodol.</p>	12(7) 17 - Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024	Ydy <input type="checkbox"/> Nac Ydy <input type="checkbox"/>

6	<p>A yw'r gwaith arfaethedig ar adeilad wedi'i eithrio neu'n waith wedi'i eithrio?</p> <p>Nid yw hysbysiad adeiladu a roddwyd i'r awdurdod rheolaeth adeiladu yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn.</p>	<p>9 Schedule 2</p>	<p>Ydy <input type="checkbox"/></p> <p>Nac Ydy <input type="checkbox"/></p>
7	<p>A yw'r gwaith adeiladu sy'n cael ei wneud o dan gynllun hunan-ardystio neu gynllun ardystio trydydd parti wedi'i eithrio o'r gofyniad i roi hysbysiad adeiladu?</p> <p>Nid yw hysbysiad adeiladu a roddwyd i'r awdurdod rheolaeth adeiladu yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn.</p>	<p>12(6)(a) 20 20A Schedule 3 Schedule 3A</p>	<p>Ydy <input type="checkbox"/></p> <p>Nac Ydy <input type="checkbox"/></p>
8	<p>A yw'r disgrifiad o'r gwaith o'r fath lle nad oes angen hysbysiad adeiladu?</p> <p>Nid yw hysbysiad adeiladu a roddwyd i'r awdurdod rheolaeth adeiladu yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn.</p>	<p>12(6)(b) Schedule 4</p>	<p>Ydy <input type="checkbox"/></p> <p>Nac Ydy <input type="checkbox"/></p>

Os yw'r ymateb i'r holl gwestiynau uchod yn **'nac ydy'**, yna mae'n bosibl rhoi hysbysiad adeiladu ar gyfer y gwaith arfaethedig. Pan fo'r ymateb yn **'ydy'** ar gyfer rhes 1, dylid gwneud cais adeiladu risg uwch i'r awdurdod rheolaeth adeiladu o dan [Rheoliadau Adeiladu \(Gweithdrefnau Adeiladau Risg Uwch\) \(Cymru\) 2025](#). Pan fo'r ymateb yn **'ydy'** i resi 2, 3 neu 4, dylid gwneud cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn i'r awdurdod rheolaeth adeiladu. Ar gyfer gwaith mewn perthynas â rhes 5, cysylltwch â thîm yr awdurdod lleol ar gyfer eich ardal. Nid oes angen cais lle mai'r ateb i resi 6, 7 ac 8 yw **'ydy'**.

	A oes angen gwybodaeth ychwanegol?	Rheoliad	Wedi'i gynnwys neu ddim yn berthnasol?
9	<p>Yn achos codi adeilad neu estyniad i adeilad, rhaid i hysbysiad adeiladu fod gyda chynllun ar raddfa o ddim llai na 1:1250 sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • maint a lleoliad yr adeilad, neu'r adeilad wedi'i ymestyn, a'i berthynas â ffiniau cyfagos • ffiniau cwrtil yr adeilad, neu'r adeilad wedi'i ymestyn, a maint, lleoliad a defnydd pob adeilad arall neu adeilad arfaethedig o fewn y cwrtil hwnnw • lled a lleoliad unrhyw stryd ar neu o fewn ffiniau cwrtil yr adeilad neu'r adeilad wedi'i ymestyn. 	<p>13(2)(a)</p> <p>13(2)(a)(i)</p> <p>13(2)(a)(ii)</p> <p>13(2)(a)(iii)</p>	<p>Wedi'i gynnwys <input type="checkbox"/></p> <p>Ddim yn berthnasol <input type="checkbox"/></p>
10	<p>Yn achos codi adeilad neu ymestyn adeilad, bydd datganiad yn cyd-fynd â hysbysiad adeiladu sy'n nodi nifer y lloriau (mae pob lefel islawr yn cael ei gyfrif fel un llawr), yn yr adeilad y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef.</p>	<p>13(2)(b)</p>	<p>Wedi'i gynnwys <input type="checkbox"/></p> <p>Ddim yn berthnasol <input type="checkbox"/></p>
11	<p>Yn achos codi neu ymestyn adeilad, bydd hysbysiad adeiladu yn cyd-fynd â manylion am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y ddarpariaeth sydd i'w gwneud ar gyfer draenio'r adeilad neu'r estyniad <p>y camau sydd i'w cymryd i gydymffurfio ag unrhyw ddeddfiad lleol sy'n berthnasol.</p>	<p>13(2)(c)(i)</p> <p>13(2)(c)(ii)</p>	<p>Wedi'i gynnwys <input type="checkbox"/></p> <p>Ddim yn berthnasol <input type="checkbox"/></p>
12	<p>Mae'n bwysig bod datblygwyr yn ymgysylltu â gweithredwyr rhwydwaith ar y cyfle cyntaf posibl i osgoi oedi diangen i waith adeiladu perthnasol ddechrau ar y safle. Pan nad yw'r cynllun</p>	<p>44ZAA</p>	<p>Wedi'i gynnwys</p>

<p>Cysylltedd ar gael ar adeg cyflwyno unrhyw hysbysiad neu gais perthnasol i gorff Rheolaeth Adeiladu, yna dylid cyflwyno datganiad cysylltedd (neu debyg) i'r corff Rheolaeth Adeiladu i ddangos bod yr ymgysylltiad hwn wedi dechrau. Gweler ffurflen enghreifftiol datganiad Cysylltedd yn Atodiad C y gall y datblygwr ei defnyddio neu ei haddasu wrth ddarparu gwybodaeth o'r fath.</p> <p>Gweler paragraff 3.2 o'r Ddogfen Gymeradwy R cyfrol 1: 2025</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol <input type="checkbox"/>
---	--	--

Gwybodaeth Bellach		Rheoliad
13 Lle rhoddwyd hysbysiad adeiladu, rhaid i berson sy'n gwneud gwaith adeiladu, adnewyddu neu ailosod elfen thermol, newid yn statws ynni'r adeilad neu sy'n gwneud newid defnydd sylweddol i'r awdurdod rheolaeth adeiladu, o fewn yr amser y maent yn ei bennu, y cyfryw gynlluniau sydd, yn yr achos penodol, yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â rheoliadau adeiladu ac a bennir ganddynt yn ysgrifenedig.	13(3)	
14 Nid yw hysbysiad adeiladu na chynlluniau sy'n cyd-fynd ag ef i'w trin fel cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn yn unol â rheoliadau adeiladu.	13(4)	
15 Bydd hysbysiad adeiladu yn dod i ben ar ddiwedd tair blynedd o'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad hwnnw i'r awdurdod rheolaeth adeiladu, oni bai cyn diwedd y cyfnod hwnnw— <ul style="list-style-type: none"> • bod y gwaith adeiladu yr oedd yr hysbysiad yn ymwneud ag ef wedi dechrau; neu • bod newid yn statws ynni'r adeilad neu newid yn y defnydd materol a ddisgrifir yn yr hysbysiad. 	13(5)	

Gwybodaeth am ffioedd	Rheoliad	Ymateb Oes / Nac Oes
16 A oes eithriad ar gyfer gwaith adeiladu sydd ei angen ar gyfer pobl anabl yn unig?	4 - The Building (Local Authority Charges) Regulations 2010	Oes <input type="checkbox"/> Nac Oes <input type="checkbox"/>
17 A oes cytundeb ar ffi briodol?	5 - The Building (Local Authority Charges) Regulations 2010	Oes <input type="checkbox"/> Nac Oes <input type="checkbox"/>
18 A oes taliad wedi'i ddarparu gyda'r cais?	8 - The Building (Local Authority Charges) Regulations 2010	Oes <input type="checkbox"/> Nac Oes <input type="checkbox"/>

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ar gyfer rhai o'r senarios gwaith adeiladu mwy cyffredin. Dylid cyfeirio bob amser at Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) am fanylion llawn.

Lluniwyd yr wybodaeth ym mis Mai 2026